



**DOGFENNAU SYDD EU HANGEN AR YR AROLYGIAETH
GYNLLUNIO**
**- Rhestr wirio ar gyfer Awdurdodau sy'n Gwneud
Gorchmynion**

	DOGFEN – mae'r dogfennau mewn print trwm yn rhai sydd eu hangen yn ôl deddfwriaeth	Cyfeirnod y Ddogfen
1	Gorchymyn wedi'i lofnodi/selio gyda chopi dyblyg. (Peidiwch ag atodi/styffylu dogfennau eraill i'r gorchmynion wedi'u selio.)	
2	Tri chopi o'r gorchymyn a mapiau cysylltiedig.	
3	Llythyr cyflwyno'r Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn. Dylech gynnwys, os yn bosibl, dyddiadau pan na fydd eich Cyngor ar gael am wrandawriad neu ymchwiliad dros yr 11 mis nesaf. Er y byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi unrhyw ddyddiadau a roddwch i ni, ni allwn roi unrhyw warantau.	
4	Datganiad o'r seiliau ar gyfer ystyried y dylid cadarnhau'r gorchymyn. <ul style="list-style-type: none">• Dylai'r datganiad esbonio pam fod y Gorchymyn yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol. Nid yw'n ddigonol i ailadrodd y meini prawf yn adran y Ddeddf sy'n berthnasol i'r Gorchymyn.• Os ydych yn bwriadu dibynnu ar eich datganiad o'r seiliau ac nid ydych yn bwriadu cyflwyno datganiad achos maes o law, dylech hefyd gyflwyno rhestr lawn o'r dogfennau/tystiolaeth sy'n sylfaen i'ch datganiad o'r seiliau.• <u>Os nad yw eich Cyngor yn cefnogi'r gorchymyn</u>, cyflwynwch Ddatganiad o'r seiliau sy'n esbonio pam rydych wedi cymryd y safiad hwn. Dylai gynnwys eich dehongliad chi o'r dystiolaeth a archwiliwyd gan eich Cyngor cyn penderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn ai peidio. Os dymunwch wneud hynny, gallwch gyflwyno datganiad achos cynhwysfawr y Cyngor gyda'r Gorchymyn. Ni fydd angen i chi gyflwyno datganiad pellach (oni bai y darganfyddir dystiolaeth bellach y bydd angen ei hychwanegu).	
5	Sylwadau ynghylch a gwrthwynebiadau i'r gorchymyn (gan gynnwys cefnogwyr) , ynghyd â rhestr gyflwyno o'u henwau.	
6	Datganiad yn cynnwys sylwadau'r Awdurdod sy'n Gwneud	

	Gorchmynion ar y gwrthwynebiadau.	
7	Copi o hysbysiad yn cyhoeddi'r gorchymyn ynghyd â chopi o'r toriad(au) papur newydd.	
8	<u>CYFEIRIWCH AT NODYN 1 ISOD</u> Tystysgrif sy'n cadarnhau, yn unol â gofynion y Ddeddf, bod hysbysiadau wedi'u cyhoeddi, eu cyflwyno a'u gosod ar y safle ac yn y swyddfeydd lleol.	
9	Tystysgrif sy'n cadarnhau y cynhaliwyd yr ymgynghoriadau angenrheidiol (awdurdodau lleol eraill ac ymgymerwyr statudol) <u>Dalier Sylw: Ar gyfer adrannau 118B a 119B y Ddeddf Priffyrdd, mae'r rhain yn cynnwys awdurdod yr heddlu</u>	
10	Copiau o unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad gan yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn.	
11	Enw a chyfeiriad pob unigolyn a hysbysir o dan naill ai (i) paragraff 1(3)(b)(i), (ii) a (iv) yn Atodlen 6 Deddf 1980; (ii) paragraff 3(2)(b)(i), (ii) a (iv) yn Atodlen 15 Deddf 1981; neu (iii) baragraff 1(2)(b)(i) i (iii) a (v) yn Atodlen 14 Deddf 1990. Gwnewch yn siŵr fod y rhestr a anfonwch atom yn gyfredol. Os oes gennych y rhestr ar ffurf dogfen Word, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ei hanfon at y swyddog achos maes o law.	
12	Ymrwymiad os caiff ei gadarnhau, caiff hysbysiad ei gyhoeddi a'i gyflwyno maes o law; neu os na chaiff ei gadarnhau, caiff hysbysiad ei gyflwyno maes o law.	
13	Map o'r lleoliad i alluogi'r Arolygydd i leoli'r safle.	
14	Caniatâd ysgrifenedig gan berchennog y tir yn caniatáu mynediad i'r tir gan yr Arolygydd (lle bo hynny'n berthnasol).	
15	Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd.	
16	Cadarnhad bod yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn yn cefnogi'r gorchymyn. Os nad ydych yn cefnogi'r gorchymyn, bydd yn rhaid i chi drefnu i rywun, sef yr ymgeisydd neu gefnogwr fel arfer, gyflwyno'r achos dros y Gorchymyn neu Orchmynion. Rhowch fanylion yr unigolyn hwn.	
17	Manylion yr amser a'r man lle bydd dogfennau sy'n ymwneud â'r gorchymyn ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus gan yr awdurdod.	
18	Materion iechyd a diogelwch; llenwch yr holiadur sydd ynghlwm.	
19	Os yw Map y Gorchymyn yn fwy na maint A3, dylech ddarparu copi A3 (neu lai) o Fap y Gorchymyn gyda'r cyfeirnodau grid priodol. (Ni allwn lungopïo neu sganio mapiau sy'n fwy nag A3 o ran maint.)	

20	<u>CYFEIRIWCCH AT NODYN 2 ISOD</u> Llythyr caniatâd gan Weinidogion Cymru (y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad - gweler paragraff 3(4) yn Atodlen 15) (y Ddeddf Priffyrdd – gweler paragraff 1(3C) yn Atodlen 6) (y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref – gweler paragraff 1(6) yn Atodlen 14)(os yw hynny'n berthnasol).	
----	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

21	<u>Y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad yn unig</u> ▪ Detholiad o'r map a'r datganiad diffiniol;	
22	▪ Ffurflenni tystiolaeth lle mae'r gorchymyn yn ymwneud â thystiolaeth defnyddwyr; oni bai eich bod yn cyflwyno eich datganiad achos llawn ar y cam hwn, mae dim ond angen i ni wybod a oes unrhyw ffurflenni tystiolaeth defnyddwyr a faint ohonynt sydd, ar hyn o bryd.	
23	<u>Os yw eich Cyngor wedi cael cyfarwyddyd i wneud y Gorchymyn</u> ▪ Penderfyniad Gweinidogion Cymru;	
24	▪ Copi o'r Cais a dogfennau ategol	

25	<u>Y Ddeddf Priffyrdd a'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn unig</u> ▪ Ymrwymiad y bydd unrhyw lwybr neu ffordd newydd sydd i'w darparu yn barod i'w defnyddio cyn y daw'r gorchymyn i rym; a	
26	▪ Detholiad o'r map a'r datganiad diffiniol.	

27	<u>Y Ddeddf Priffyrdd yn unig</u> ▪ Lle bo tir yn eiddo i fywoliaeth eglwysig, tystysgrif yn cadarnhau bod Comisiynwyr yr Eglwys wedi derbyn hysbysiad.	
28	<u>A26, 118 a 119</u> ▪ Copi o'r rhan(nau) <u>perthnasol</u> o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, neu gadarnhad nad oes unrhyw ddarpariaeth berthnasol. (Mae'n rhaid i Arolygwyr roi sylw i unrhyw ddarpariaethau perthnasol mewn Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a baratowyd gan yr awdurdod priffyrdd lleol ond nid ydynt angen y fersiwn llawn.)	
29	<u>A118A and 119A(Gorchmynion Croesfannau Rheilffordd)</u> ▪ Copi o'r cais am y gorchymyn;	
30	▪ Copi o unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi'r cais am y gorchymyn;	

31	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Copi o'r achos a roddwyd gan y gweithredwr yn cyfiawnhau'r angen am orchymyn i gau neu ddargyfeirio'r groesfan rheilffordd; 	
32		
33	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Copi o unrhyw fapiau neu gynlluniau cysylltiedig a oedd yn cyd-fynd â'r cais am y gorchymyn; 	
34	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Manylion unrhyw gynigion cysylltiedig megis gorchymyn pont neu dwannel; 	
35	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Lle bo angen, tystysgrif yn dangos bod yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn wedi ymgynghori neu dderbyn caniatâd gan unrhyw awdurdod neu gorff arall; ▪ Datganiad ynghylch natur ac effaith unrhyw ymgynghoriad o'r fath; 	
36	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cadarnhad bod y tir dan sylw'n eiddo i'r gweithredwr, neu, lle nad yw'r tir yn eiddo i'r gweithredwr, bod perchennog y tir wedi cytuno i'r cynnig; 	
37	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cadarnhad bod y gweithredwr yn barod i gynnal a chadw'r llwybr cyfan neu ran ohono, a'i fod wedi cytuno i dalu rhan neu'r cyfan o'r gost o wneud y llwybr newydd ac unrhyw iawndal a allai fod yn daladwy; 	
38	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Lle bydd y llwybr yn cael ei ddargyfeirio dros/o dan bont neu dwannel yn amodol ar orchymyn o dan adran 48 Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, eglurhad bod y strwythur wedi'i gwblhau neu ei fod yn ddibynnol ar orchymyn gwyo. 	
39	<p><u>A118B a 119B (Gorchymynion Diddymu a Gwyo Arbennig)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Manylion cyswllt yr awdurdod tân lleol. 	
40	<p><u>A118B(1)(a) a 119B(1)(a)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Lle bo hynny'n berthnasol, copi o unrhyw strategaeth ar gyfer lleihau troseddu ac anhrefn a baratowyd o dan adran 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998; 	
41	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Copi o'r map perthnasol ar gyfer yr ardal a gynhwysir yn y gorchymyn dynodi. 	

42	Y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn unig	
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Copi o'r caniatâd cynllunio perthnasol a chopi o'r cynllun cymeradwy; 	
43		
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynllun yn dangos sut bydd y datblygiad yn effeithio ar y llwybr neu ffordd; 	
44		
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cadarnhad bod yr holl dir a effeithir yn eiddo i'r datblygwr neu ganiatâd gan berchennog/perchenogion y tir fel y bo'n briodol; 	
45		
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cadarnhad ynghylch cam presennol y datblygiad. 	
46		
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Caniatâd ysgrifenedig gan unrhyw ymgwymerwr statudol yr effeithir arnynt neu gadarnhad na effeithir ar unrhyw un o'r fath. <u>Os derbyniwyd ymatebion gan yr ymgwymerwyr statudol, mae'n rhaid eu cynnwys;</u> 	

Nodyn 1

Sicrhewch fod eich Cyngor wedi nodi ac wedi cyflwyno hysbysiad o wneud y Gorchymyn i'r **holl** berchenogion tir yr effeithir arnynt gan y llwybr(au) yn y Gorchymyn. Dylid rhoi enwau'r holl berchenogion tir i'r Arolygiaeth. Os nad yw eich Cyngor wedi cyflwyno hysbysiad i'r holl berchenogion tir yr effeithir arnynt, bydd angen i chi wneud hynny nawr, a rhoi cyfnod priodol o amser i'r perchenogion tir ar gyfer cyflwyno unrhyw sylwadau i'ch swyddfa (42 diwrnod ar gyfer achosion o addasu map diffiniol a 28 diwrnod ar gyfer gorchymynion llwybrau cyhoeddus).

Nodyn 2

Os nad yw eich cyngor wedi gallu adnabod perchenogaeth yr holl dir a effeithir gan y Gorchymyn, dylech ofyn am gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan naill ai (i) paragraff 3(4) yn Atodlen 15 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, (ii) paragraff 1(6) yn Atodlen 14 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, (iii) paragraff 1(3C) yn Atodlen 6 Deddf Priffyrdd 1980, na fydd angen i'ch Cyngor gyflwyno rhybudd i berchenogion a deiliaid y tir lle mae llwybr(au) y Gorchymyn yn rhedeg.

Dylid cysylltu â'r Tîm Hawliau Tramwy yn yr Arolygiaeth Gynllunio gydag unrhyw geisiadau o'r fath cyn cyflwyno'r Gorchymyn i Weinidogion Cymru. Wrth wneud cais am gyfarwyddyd, dylech roi manylion am y camau a gymerwyd i adnabod perchenogaeth tir (megis chwiliadau'r Gofrestrfa Tir, gosod hysbysiadau ar y safle ac yn y blaen).

Nid yw'n bolisi gennym i gychwyn gweithdrefn i benderfynu gorchymyn hyd nes y bydd camau o'r fath i nodi a hysbysu'r holl berchenogion tir (neu oddefeb) wedi cael eu cwblhau.

Ewch ymlaen at yr holiadur iechyd a diogelwch sydd ynghlwm wrth y rhestr wirio hon.

Holiadur iechyd a diogelwch ar y safle

Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle a bydd angen iddynt wybod pa gyfarpar diogelwch a dillad amddiffynnol fydd eu hangen. Mae'r cwestiynau canlynol yn dangos y math o wybodaeth y bydd ei hangen ar yr Arolygydd am y safle. Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol ar ddalen o bapur ar wahân.

1. A yw'r safle'n anwastad neu a oes unrhyw risgiau hysbys eraill? A oes angen esgidiau arbennig neu unrhyw Offer Amddiffynnol Personol arall?

2. A oes unrhyw debygolrwydd o gysylltiad gydag anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill a allai beryglu diogelwch yr Arolygydd?

3. A yw'r safle'n anghysbell a/neu a ellir ei weld o briffyrdd neu lwybrau tramwy eraill?

4. A oes signal ffôn symudol da ar y safle neu a oes mynediad hawdd i ffôn cyhoeddus pe byddai angen y gwasanaethau brys?

5. A yw'r llwybr tramwy'n hygyrch? A fydd angen gwneud trefniadau o flaen llaw ar gyfer mynediad gan yr Arolygydd?

6. A oes unrhyw offer neu sylweddau peryglus yn cael eu storio ar unrhyw bwynt ar hyd y llwybr tramwy?

7. A oes unrhyw wybodaeth berthnasol arall y dylai'r Arolygydd fod yn ymwybodol ohoni nad yw wedi'i chynnwys yn yr holiadur hwn?